***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Paragraff 6. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 1

### TALIADAU A GANIATEIR

*Taliad yn achos diffygdaliad*

6 (1) Mae taliad y mae'n ofynnol ei wneud yn achos diffygdaliad gan ddeiliad y contract, o dan gontract meddiannaeth safonol, yn daliad a ganiateir, ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-baragraff (3).

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "diffygdaliad" yw—

(a) methiant gan ddeiliad y contract i wneud taliad i'r landlord erbyn y dyddiad dyledus, neu

(b) toriad gan ddeiliad y contract o un o delerau'r contract.

(3) Yn achos diffygdaliad y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, os yw swm y taliad sy'n ofynnol yn achos y diffygdaliad yn fwy na'r terfyn rhagnodedig, mae'r swm ychwanegol yn daliad gwaharddedig.

(4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i—

(a) methiant gan ddeiliad contract i dalu rhent i'r landlord erbyn y dyddiad dyledus;

(b) unrhyw ddisgrifiad ychwanegol o ddiffygdaliad a bennir gan reoliadau.

(5) Yn is-baragraff (3), ystyr y "terfyn rhagnodedig" yw terfyn a bennir gan reoliadau, neu y penderfynir arno yn unol â rheoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I2** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Paragraff 6.